YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

**Corff Llywodraethol Yr Eglwys yng Nghymru**
**The Governing Body of The Church in Wales**

# Pwyllgor Sefydlog

Cynhaliwyd Cyfarfod o Bwyllgor Sefydlog Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru yng Nghanolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru ar 4 Medi 2023.

## Presennol:

Aelodau Ex-officio

Y Parchedicaf Archesgob Cymru
Y Gwir Barchedig Esgob Llanelwy
Y Gwir Barchedig Esgob Mynwy
Y Gwir Barchedig Esgob Abertawe ac Aberhonddu
Y Gwir Barchedig Esgob Llandaf
Yr Athro Medwin Hughes, CBE, DL, Cadeirydd Corff y Cynrychiolwyr
Mrs Hilary Wiseman, Dirprwy Gadeirydd Corff y Cynrychiolwyr

Enwebwyd gan Bwyllgorau Sefydlog yr Esgobaethau

Mr Paul Whittaker CBE
Y Parchedig Richard Wood
Ms Susan Fogarty
Yr Hybarch Paul Mackness
Mr Tim Llewelyn (Cadeirydd)
Yr Hybarch Rod Green
Dr Heather Payne (Is-gadeirydd)
Y Parchedig John Connell
Y Parchedig Justin Davies
Mr Paul Murray

Cyfetholedig

Ei Anrhydedd y Barnwr Andrew Keyser KC
Sir Paul Silk

Yn bresennol:

Ysgrifennydd y Dalaith, Swyddog y Corff Llywodraethol, y Rheolwr Llywodraethu a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol.

## Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:
Y Parchedig Christine Owen a Dr Jayne Collier.

## Croeso

Croesawodd y Cadeirydd yr holl aelodau i'r cyfarfod.

## Gweddïau

Offrymwyd y weddi agoriadol gan yr Archesgob.

## Adroddiad yr Archesgob i'r Pwyllgor Sefydlog yn dilyn cyfarfod y Gweithgor Blaenoriaethau

**23/33**

Yn sgil cais y Pwyllgor Sefydlog i'r Gweithgor Blaenoriaethau fapio'r mannau y gellid dod o hyd i ffyrdd newydd o gydweithredu, cyfarfu'r gweithgor mewn cyfarfod preswyl yn Amwythig ar 31 Gorffennaf ac 1 Awst 2023. Cyflwynodd yr Archesgob bapur yn cofnodi trafodaethau'r grŵp ac yn nodi cyfres arfaethedig o flaenoriaethau ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru.

Croesawodd y Pwyllgor Sefydlog y gwaith a wnaed ac yn ystod trafodaethau gwnaed nifer o awgrymiadau ac addasiadau. Yn dilyn adborth pellach gan y Corff Llywodraethol a'r Fainc, nodwyd y byddai'r ddogfen derfynol yn dychwelyd i'r Pwyllgor Sefydlog ar 30 Tachwedd 2023 gydag argymhellion ar gyfer penderfyniad.

Diolchodd y Cadeirydd a'r Pwyllgor i Chris Pyrah, Cynorthwyydd Gweithredol Ysgrifennydd y Dalaith, am gynhyrchu nodyn o'r gweithgor blaenoriaethau.

## Diogelu – Cadeirydd y Pwyllgor Diogelu a'r Panel Diogelu Taleithiol

**23/34**

Ym Medi 2020, penderfynodd y Pwyllgor Sefydlog benodi Cadeirydd cyflogedig i'r Panel Diogelu am gyfnod o dair blynedd tan 30 Medi 2023. Ers ei benodiad roedd y Cadeirydd, Mr Tony Young, hefyd wedi cael ei benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Diogelu. Roedd Mr Young yn barod iddynt ei ailbenodi am gyfnod pellach o dair blynedd. Nododd y Pwyllgor Sefydlog fod Mr Young yn weithiwr proffesiynol diogelu profiadol ac yn gyn-bennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Caerdydd. Roedd hefyd yn gadeirydd Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru.

Felly, ail-benododd y Pwyllgor Sefydlog Mr Tony Young yn gadeirydd cyflogedig annibynnol i’r Panel Diogelu a'r Pwyllgor Diogelu am y cyfnod o dair blynedd rhwng 1 Hydref 2023 a 30 Medi 2026.

## Dyddiad y cyfarfod nesaf

**23/35**

Trefnwyd y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor Sefydlog, sef cyfarfod terfynol y cyfnod tair blynedd, yn cael ei gynnal yn y cnawd ddydd Iau, 30 Tachwedd, yn swyddfa'r dalaith.

## Gweddïau

Offrymwyd gweddi gan Esgob Abertawe ac Aberhonddu'r i gloi’r cyfarfod.

Cofnodion PS 4/9/23
J.R. 15.09.23